**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru**

**Director General Health, Social Care & Early Years Group / NHS Wales Chief Executive**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Audit Wales
1 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Our Ref: JP/AD/SB

17 March 2025

Dear Adrian

**Auditor General for Wales Review of Cancer Services in Wales**

Thank you again to you and your colleagues for the work and engagement that has taken place with the Welsh Government and NHS Executive to deliver the Audit Wales Cancer Services in Wales report. We are committed to improving cancer services and welcome your findings and recommendations.

We have given each recommendation careful consideration and are pleased to now share our final response. We have provided a summarised narrative, completion date and responsible officer for each recommendation.

I look forward to seeing the outcome of the next phase of your work, as we utilise your recommendations to improve the strategic approach to cancer diagnosis and treatment in Wales.

Yours Sincerely

Judith Paget

**Judith Paget CBE**



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Judith.Paget001@gov.wales

Gwefan ● website: www.gov.wales

# Ffurflen ymateb rheolaethol

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Teitl yr adroddiad:** Gwasanaethau Canser yng Nghymru: Adolygiad o'r dull strategol o wella amseroldeb diagnosis a thriniaeth

**Dyddiad Cwblhau:** 14/1/25

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n gyhoeddus statws y Cynllun Gwella Canser a'i gysylltiadau â'r Rhaglen Adfer Canser Genedlaethol a menter Canser: Gwella Canlyniadau.  Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu dwyn cyrff y GIG i gyfrif am gyflawni'r Cynllun Gwella Canser. | Derbyn.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser i egluro priod rolau'r Rhaglen Adfer Canser, y Cynllun Gwella Canser a ffrydiau gwaith cenedlaethol pwysig eraill megis y fenter Gwneud iddo Ddigwydd. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad o drefniadau atebolrwydd. | Diwedd chwarter 1 2025-26 | Sue Tranka<br><br>Y Prif Swyddog Nyrsio |
| A2 | Dylai Llywodraeth Cymru nodi model cydlynol ar gyfer arweinyddiaeth system mewn cysylltiad â gwasanaethau canser sy'n egluro ei rôl ei hun a swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG ac yn nodi sut y bydd yn ymgysylltu â chlinigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn datblygu safbwynt cyffredin ar | Derbyn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n pennu manylion terfynol model llywodraethu ac arwain diwygiedig ar gyfer datblygu gwasanaethau canser. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Grŵp Arwain Cenedlaethol ar gyfer Canser a fydd yn cydgysylltu neu'n arwain ar | Diwedd chwarter 4 2024-25 | Nick Wood<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | berfformiad, ansawdd a chyfleoedd i wella gwasanaeth canser. | gamau gweithredu cenedlaethol. Bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu mewnbwn clinigol, mewnbwn y trydydd sector a'r sector preifat i'w waith. Bydd y model hwn yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i adborth y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol a'r rhai sy'n ymwneud â grwpiau arwain cysylltiedig. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu disgrifio yn y Datganiad Ansawdd diweddaraf ar gyfer Canser. | | |
| A3 | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei fframwaith goruchwylio a pherfformiad mewn cysylltiad â gwasanaethau canser er mwyn canolbwyntio ar amrywiaeth ehangach o faterion, gan gynnwys cysondeb mwy eglur â'r uchelgeisiau a'r priodoleddau ansawdd a nodir yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser. | Derbyn.<br><br>Nid yw Fframwaith Perfformiad y GIG ond yn cynnwys y metrigau strategol lefel uchaf i'r GIG; nid yw'n cynnwys yr holl fetrigau sy'n cael eu cymhwyso'n rheolaidd mewn prosesau atebolrwydd. Mae set ehangach o fetrigau sydd y tu allan i'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys arosiadau cydrannau yn y llwybr canser, mynediad at fesurau triniaeth, data am ansawdd gofal a chanlyniadau, | Diwedd chwarter 1 2025-26 | Jeremy Griffith<br><br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | sgrinio ac imiwneiddio, a chanlyniadau cleifion. Defnyddir y set ehangach o fetrigau fel rhan o'r broses atebolrwydd arferol yn ôl yr angen. Bydd y Datganiad Ansawdd wedi'i ddiweddaru ar gyfer Canser yn cynnwys manylion ychwanegol i esbonio sut y caiff y gwaith o ddarparu gwasanaethau canser ei fesur. | | |
| A4 | Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull mwy cydlynol o wella iechyd y boblogaeth drwy nodi sut mae'n bwriadu defnyddio ei Chyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 Mlynedd a Mwy i reoli'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag atal i leihau nifer yr achosion o ganser a chyflyrau mawr eraill. | Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull a arweinir gan dystiolaeth o atal ac o leihau'r risg ar lefel y boblogaeth ar gyfer canser a chyflyrau mawr. Mae rhaglenni sefydledig ar gyfer atal smygu drwy Strategaeth Cymru Ddi-fwg a'r Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco (gyda deddfwriaeth ategol ychwanegol ar fin cael ei chyhoeddi) ac ar fynd i'r afael â gorbwysedd a gordewdra, drwy strategaeth a chynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach, gan gynnwys drwy hwyluso gweithgarwch corfforol. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu hadolygu'n gyson a'u | Sefydlu grŵp cynghori ar atal afiechyd erbyn diwedd chwarter 1 2025-26 | Sioned Rees<br><br>Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd y Cyhoedd |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb rheolaethol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | datblygu wrth i dystiolaeth a thechnolegau newydd ddod i'r amlwg.<br><br>Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2025-28 yn cynnwys iechyd y boblogaeth ac atal fel un o'r pum maes blaenoriaeth a bydd hyn yn cefnogi ymgyrch a ffocws pellach ar ymyriadau atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol yng nghynlluniau sefydliadau'r GIG.<br><br>Rydym wrthi hefyd yn sefydlu grŵp cynghori atal afiechyd o dan y Prif Swyddog Meddygol i gefnogi a manteisio ar gyfleoedd i roi polisïau cynaliadwy ar waith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar atal afiechyd ac anghydraddoldebau cysylltiedig. Y canolbwynt cychwynnol fydd sicrhau a mesur cyllid atal afiechyd, cryfhau'r bensaernïaeth bresennol, bwrw ymlaen â gwaith ar ddata, a chefnogi'r rôl drawslywodraethol o ran atal afiechyd. Bydd sefydlu'r grŵp hwn yn helpu i ddarparu ymgysylltiad parhaus a dull cydlynol a | | |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb rheolaethol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | chydgysylltiedig o ddatblygu ymatebion priodol o ran polisi a systemau. | | |
| A5 | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch rhaglen sgrinio'r ysgyfaint cenedlaethol. Dylai gadarnhau cyn gynted â phosibl a fydd yn ariannu rhaglen sgrinio'r ysgyfaint cenedlaethol i Gymru a'r amserlen ar gyfer gweithredu rhaglen o'r fath. | Derbyn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflymu ei waith ar gwmpasu sgrinio'r ysgyfaint er mwyn caniatáu penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar ei gyflwyno a'i ariannu. Mae disgwyl i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu adroddiad interim erbyn diwedd mis Mawrth ac adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Medi i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gyflwyno rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer yr ysgyfaint. | Diwedd chwarter 2 2025-26 | Sioned Rees<br><br>Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd y Cyhoedd |
| A6 | Yn rhan o ddull ehangach o annog gweithio rhanbarthol gwell rhwng byrddau iechyd, dylai Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG | Derbyn. | Yn parhau | Mike Emery |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | weithio gyda'r gwasanaeth i ddeall a helpu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau allweddol i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol. Dylai hyn gynnwys gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i nodi atebion digidol er mwyn cefnogi rhestrau aros a rennir ar gyfer diagnosis a thriniaeth canser, fel y bo'n briodol. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i gefnogi gweithio rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol, i fynd i'r afael â breuder gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ddatblygu atebion digidol i ganiatáu rhestrau aros a rennir. | | Prif Swyddog Digidol |
| A7 | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gweithrediaeth y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff eraill y GIG i sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael i radiolegwyr sydd wedi eu hyfforddi yn yr Academi Ddelweddu Genedlaethol. | Derbyn.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd yng Nghymru, sy'n gyfrifol am gynllunio eu gweithlu, er mwyn i raddedigion o'r Academi Ddelweddu gael eu cyflogi yn unol ag anghenion gweithlu lleol neu ranbarthol. | Chwarter 2 2025-26 | Helen Arthur<br><br>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Busnes y Llywodraeth |
| A8 | Dylai Llywodraeth Cymru egluro rolau a chyfrifoldebau cenedlaethol o ran monitro, a sicrhau y cydymffurfir â'i safonau data gan | Derbyn. | Chwarter 3 2025-26 | Mike Emery |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | gynnwys sut y bydd yn dwyn cyrff y GIG i gyfrif am gydymffurfiaeth wael. | Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu ac yn dylunio safonau data, gan gynnwys isafswm setiau data ar gyfer GIG Cymru. Mae DHCW yn cynghori Llywodraeth Cymru ar yr hyn a ddylai gael ei gynnwys a sut y dylid ei gasglu. Dim ond Llywodraeth Cymru gaiff fandadu gofynion drwy bolisi cenedlaethol, canllawiau cynllunio neu Gylchlythyrau Iechyd Cymru. Er mwyn sicrhau cydymffurfiad, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau eu harchwilio eu hunain yn erbyn y safonau ac i DHCW ddarparu proses sicrhau ansawdd ac adolygu. Mae gan gyrff rheoleiddio fel Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru rôl hefyd o ran archwilio sefydliadau yn erbyn safonau cenedlaethol. Dylai DHCW a chyrff rheoleiddio roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw fethiant sylweddol i gydymffurfio â gofynion data cenedlaethol, fel y gellir mynd i'r afael â'r rhain gyda sefydliadau'r GIG drwy brosesau a chyfarfodydd atebolrwydd. | | Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb rheolaethol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| A9 | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhwydwaith Canser, Gweithrediaeth y GIG, Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu set data mwy cynhwysfawr am wasanaethau canser sydd ar gael i'r cyhoedd, a ddylai gynnwys yr hyn a ganlyn, o leiaf:<br>• nifer y bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth canser ar hyn o bryd (data llwybr agored);<br>• Y perfformiad o'i gymharu â'r targed 62 o ddiwrnodau i'r bwrdd iechyd ddarparu diagnosis a thriniaeth a'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am leoliad preswyl y claf, gan gynnwys pobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys;<br>• Y perfformiad ar draws llwybrau cleifion gan gynnwys amseroldeb | Derbyn mewn egwyddor.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu map ffyrdd am ddata canser i wella'r data sydd ar gael ar ddarparu gwasanaethau canser i'w ddefnyddio gan y GIG, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. Er hynny, efallai na fydd modd darparu'r holl ddata hwn i'r cyhoedd am resymau cywirdeb data, y baich adrodd ar wasanaethau'r GIG, a chyfrinachedd cleifion. Yn ogystal, rhaid deall yn gyntaf y rhwystrau i ddarparu data ar driniaeth yn Lloegr cyn y gellir gwneud ymrwymiadau i gyhoeddi'r data hwn, ond rydym yn cefnogi'r egwyddor o wneud hyn, yn amodol ar eu dadansoddiad pellach. | Chwarter 3 2025-26 | Mike Emery<br><br>Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | adroddiadau diagnostig ar draws lleoliadau tiwmor; amseroldeb o'r penderfyniad i drin claf hyd at ddechrau'r driniaeth honno (gan gynnwys llawdriniaeth, radiotherapi a Therapi Gwrth-ganser Systemig); a diagnosis a thriniaeth ar gyfer clefyd sy'n dod drachefn a thrachefn. Dylid darparu gwybodaeth am berfformiad ar lefel isdiwmor canser pan fo hynny'n bosibl;<br>• Amseroldeb diagnosis a thriniaeth ar gyfer cleifion a gyfeirir o raglenni sgrinio'r fron a serfigol.<br>• gwybodaeth gywir am degwch o ran y gallu i gael triniaeth, gan gynnwys ethnigrwydd cleifion canser yn ogystal â phrofiadau gwahanol grwpiau o | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolaethol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol am y gweithredoedd sydd wedi’u cynllunio mewn ymateb i’r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y gweithredoedd a gynllunnir wedi’u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | gleifion (dylai hyn gynnwys plant a phobl ifanc). | | | |
| R10 | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a GIG Lloegr i rannu data rheolaidd a chyson am amseroldeb diagnosis a thriniaeth i gleifion canser Cymru sy’n cael eu trin gan GIG Lloegr. | Derbyn.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd, GIG Lloegr, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod data perthnasol am ddiagnosis a thriniaeth trigolion Cymru a welir yn Lloegr yn cael ei rannu'n briodol. | Chwarter 4 2025-26 | Mike Emery<br><br>Prif Swyddog Digidol |